**Y Pwyllgor Addysg a Dysgu Gydol Oes**

**Adroddiad Blynyddol i'r Cynulliad 2003-04**

## 1. Rhagarweiniad

1.1 Yn ôl Rheol Sefydlog 9.9 mae'n ofynnol i'r holl bwyllgorau pwnc gyflwyno adroddiad i'r Cynulliad ar y cynnydd a wnaethant yn cyflawni eu blaenraglenni gwaith. Mae'r adroddiad hwn yn canolbwyntio ar y cyfnod rhwng 3 Mehefin 2003 a 31 Mawrth 2004.

## 2. Aelodaeth

2.1 Yn ystod y flwyddyn bu'r canlynol yn aelodau o'r Pwyllgor:

| | |
|---|---|
| Peter Black (Cadeirydd) | Irene James |
| Leighton Andrews | Denise Idris-Jones |
| Jeff Cuthbert | Helen Mary Jones (hyd at fis Rhagfyr 2003) |
| Jane Davidson (Gweinidog) | Janet Ryder (o fis Rhagfyr 2003 ymlaen) |
| David Davies | Owen John Thomas |
| Mark Isherwood | |

## 3. Cyfarfodydd

3.1 Yn ystod y cyfnod, cyfarfu'r Pwyllgor yn ffurfiol ar 10 achlysur. Cynhaliwyd yr holl gyfarfodydd yn gyhoeddus.

## 4. Cylch Gwaith a Chyfrifoldebau

4.1 Mae cylch gwaith y Pwyllgor yn seiliedig ar bortffolio'r Gweinidog dros Addysg a Dysgu Gydol Oes, sy'n ymwneud â'r rhan fwyaf o agweddau ar addysg a hyfforddiant. Amgaeir portffolio'r Pwyllgor yn Atodiad 1.

4.2 Rhestrir cyfrifoldebau'r pwyllgorau pwnc yn y Rheolau Sefydlog, ac maent wedi'u cynnwys yn Atodiad 2.

## 5. Nodau ac Amcanion

5.1 Disgrifiodd y Pwyllgor ei nodau yn y Flaenraglen Waith Strategol ar gyfer y cyfnod Mehefin 2003 i Ragfyr 2004, a gafodd ei chymeradwyo ar 18 Mehefin 2003. Y nod oedd hybu ac annog gwelliant tymor hir a pharhaus yn ansawdd addysg yng Nghymru, gyda phwyslais ar gynnig cyfleoedd addysg a dysgu gydol oes o ansawdd uchel i holl bobl Cymru.

## 6. Hynt y Gwaith

6.1 Mae'r Pwyllgor wedi canolbwyntio ar ei adolygiad polisi o anghenion addysg arbennig, ac wedi casglu tystiolaeth gan amrediad eang o unigolion a sefydliadau. Mae'r Pwyllgor hefyd wedi craffu ar ddarnau o is-ddeddfwriaeth sy'n berthnasol i'r portffolio addysg a dysgu gydol oes.

## 7. Datblygu ac Adolygu Polisi (Rheol Sefydlog 9.7)

7.1 Yn ei gyfarfod ar 18 Mehefin 2003, cytunodd y Pwyllgor i gynnal adolygiad polisi o anghenion addysg arbennig. Roedd yn faes eang iawn, felly penderfynwyd rhannu'r adolygiad i dair rhan: nodi ac ymyrryd yn gynnar; y broses o ddarparu datganiadau a throsglwyddo rhwng y gwahanol gamau mewn addysg a dysgu gydol oes. Penderfynodd y Pwyllgor ddechrau gyda nodi ac ymyrryd yn gynnar.

7.2 Penodwyd grŵp cyfeirio gan y Pwyllgor oedd yn cynnwys cynrychiolwyr o'r sectorau addysg a hyfforddiant yng Nghymru, gyda diddordeb arbennig mewn AAA. Mae'r grŵp cyfeirio wedi cyfarfod ddwywaith hyd yma, er mwyn cynorthwyo'r Pwyllgor gyda'r gwaith o nodi'r prif themâu ar gyfer yr adolygiad ac i awgrymu siaradwyr priodol ar gyfer y sesiynau casglu tystiolaeth.

7.3 Cynhaliwyd proses ymgynghori cyhoeddus rhwng mis Medi a mis Rhagfyr 2004, a chafwyd dros 130 o ymatebion. Clywodd y Pwyllgor dystiolaeth lafar dros nifer o fisoedd, gyda'r bwriad o ystyried ei gasgliadau yn ystod tymor yr haf.

7.4 Ymwelodd y Pwyllgor ar ddau achlysur ag ysgolion - yn y Gogledd a'r De i gasglu tystiolaeth. Cyfarfu grwpiau o Aelodau â disgyblion, athrawon, penaethiaid, rhieni a chynrychiolwyr yr awdurdodau addysg lleol, yn ogystal ag ymweld ag ysgolion. Ar 6 Tachwedd 2003, ymwelodd grŵp o Aelodau'r Pwyllgor ag Ysgol St Christopher's ac Ysgol y Drindod yn Wrecsam ac Ysgol Mynydd Isa yn yr Wyddgrug. Cyfarfu'r aelodau yn anffurfiol â'r cyhoedd, rhieni, cynrychiolwyr yr AALl ac athrawon. Ymwelodd grŵp o'r Aelodau hefyd ag Ysgol Uwchradd Brynteg ac Ysgol Heronsbridge ym Mhen-y-bont ar Ogwr ar 22 Ionawr 2004, a chynhaliwyd sesiwn anffurfiol tebyg ar ôl oriau ysgol.

7.5 Bydd y Pwyllgor yn ystyried y dystiolaeth a gasglwyd yn ystod tymor yr haf ac yn cyflwyno adroddiad i'r Cynulliad yn hydref 2004.

### Materion Eraill yn ymwneud â Datblygu ac Adolygu Polisi

7.6 Hefyd, penderfynodd y Pwyllgor gynnal adolygiad polisi ar gludiant i'r ysgol yn ystod tymhorau'r haf a'r hydref; cytunodd ar gylch gorchwyl yr adolygiad yn ei gyfarfod ar 28 Ionawr 2004.

7.7 Ystyriodd y Pwyllgor fanylion diweddaraf y cynnydd a wnaed o ran rhoi Cynllun Gweithredu Llwybrau Dysgu 14-19 Llywodraeth Cynulliad Cymru ar waith.

**8. Craffu ar Ddeddfwriaeth (Rheol Sefydlog 9.8ii)**

8.1 Mae'r Pwyllgor yn derbyn rhestr o is-ddeddfwriaeth a gynigir gan Lywodraeth Cynulliad Cymru yn rheolaidd ym mhob cyfarfod. O'r rhestr, gwahoddir yr aelodau i nodi unrhyw eitemau y maent yn teimlo y dylai'r Pwyllgor graffu arnynt.

8.2 Mae'r Pwyllgor wedi ystyried dwy eitem o is-ddeddfwriaeth, sef:

- Rheoliadau Fforymau Ysgolion (Cymru) 2003 (cyfarfod 17 Gorffennaf 2003); a
- Rheoliadau Cynigion Trefniadaeth Ysgolion gan Gyngor Cenedlaethol Cymru dros Addysg a Hyfforddiant 2004.

Nododd Aelodau'r Pwyllgor eu bod yn dymuno ystyried y darnau hyn o is-ddeddfwriaeth.

8.3 Cyfeiriwyd dau Fesur at y Pwyllgor yn dilyn y ddadl yn y Cyfarfod Llawn ym mis Rhagfyr 2003 ar araith y Frenhines i'r Senedd. Ystyriodd y Pwyllgor y Mesur Addysg Uwch ar 28 Ionawr 2004; Anerchodd y Gwir Anrhydeddus Don Touhig, Is-ysgrifennydd Gwladol Cymru y Pwyllgor ar yr amserlen ar gyfer y Mesur a'r goblygiadau i Gymru.
Bydd y Pwyllgor yn ystyried y Mesur Cludiant i'r Ysgol Drafft, a gyfeiriwyd at y Pwyllgor Datblygu Economaidd a Thrafnidiaeth, ar 28 Ebrill 2004.

**9. Monitro a Chraffu (Rheol Sefydlog 9.7 (ii) a (iii))**

9.1 Mae'r Pwyllgor wedi craffu ar waith y Gweinidog a pherfformiad Llywodraeth Cynulliad Cymru trwy adroddiad y Gweinidog.

9.2 Gofynnodd ymgynghorwyr o Open Direction Ltd am farn y Pwyllgor ar gam cyntaf Adolygiad Pum Mlynedd ACCAC yn y cyfarfod ar 19 Tachwedd 2003.

9.3 Cafwyd sesiwn craffu cyffredinol, estynedig ar Gyngor Cenedlaethol Cymru dros Addysg a Hyfforddiant (ELWa) ar 10 Rhagfyr 2003. Canolbwyntiodd y sesiwn ar y cynigion ar gyfer y fframwaith cynllunio a chyllido ar gyfer addysg a hyfforddiant ar ôl 16 oed.

9.4 Gwahoddwyd y Comisiynydd Plant i fod yn bresennol yng nghyfarfod y Pwyllgor ar 25 Chwefror i gyflwyno a thrafod ei Adroddiad Blynyddol ar gyfer 2002-03.

9.5 Cyflwynodd Prif Arolygydd Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru brif bwyntiau Adroddiad Blynyddol 2002-03 Estyn ar 17 Mawrth 2004.

## 10. Penodiadau (Rheol Sefydlog 9.8)

10.1 Peter Black (Cadeirydd) a Jeff Cuthbert oedd cynrychiolwyr y Pwyllgor ar gyfer penodiadau cyhoeddus. Maent wedi cymryd rhan mewn deg penodiad cyhoeddus.

10.2 Roedd y Gweinidog dros Addysg a Dysgu Gydol Oes hefyd yn aelod o'r panel penodi.

## 11. Cyllideb (Rheol Sefydlog 9.8)

11.1 Ystyriodd y Pwyllgor gyllideb arfaethedig Llywodraeth y Cynulliad ar gyfer 2004-05 a gwnaeth sylwadau arni. Mae llythyr y Cadeirydd yn nodi argymhellion y Pwyllgor yn Atodiad 3.

## 12. Materion Trawsbynciol

12.1 Mae'r Pwyllgor wedi cydweithio â phwyllgor arall. Derbyniodd Cadeirydd y Pwyllgor Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol wahoddiad i fod yn bresennol yn y cyfarfodydd oedd yn trafod yr adolygiad o anghenion addysg arbennig. Felly, roedd modd iddo gyfleu unrhyw sylwadau yn ôl i'r Pwyllgor Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, a chynrychioli barn y Pwyllgor hwnnw.

## 13. Y Cynlluniau Statudol

13.1 Mae'r Pwyllgor wedi ystyried cynlluniau statudol y Cynulliad Cenedlaethol o ran cysylltiadau â'r awdurdodau lleol a'r sector gwirfoddol, a'r cynllun datblygu cynaliadwy wrth gyflawni ei waith.

## 14. Y Rhaglen ar gyfer y Dyfodol

14.1 Mae blaenoriaethau'r Pwyllgor ar gyfer 2004-05 wedi eu nodi yn y Flaenraglen Waith Strategol yn Atodiad 4. Ymhlith y prif bynciau y mae:

- Adolygiad polisi o gludiant i'r ysgol;
- Cam nesaf yr adolygiad polisi o anghenion addysg arbennig;
- Y Mesur Cludiant i'r Ysgol Drafft;
- Craffu ar is-ddeddfwriaeth a deddfwriaeth sylfaenol arall; a
- Craffu ar Gyrff Cyhoeddus a Noddir gan y Cynulliad (CCNC) a chyrff perthnasol eraill. Bydd y Pwyllgor yn ymweld yn anffurfiol â'r sefydliadau cyn craffu ar y cynlluniau corfforaethol.

Peter Black AC
**Cadeirydd**

**Atodiad 1**

**Portffolio'r Pwyllgor**

Yn unol ag adran 57(4) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998, mae portffolio'r Pwyllgor yn cyfateb i bortffolio'r Gweinidog Cynulliad:

- Addysg feithrin a'r blynyddoedd cynnar yng Nghymru;
- Safonau addysg mewn ysgolion yng Nghymru, gan gynnwys gweithgareddau Estyn;
- Trefniadaeth ysgolion yng Nghymru, gan gynnwys cymeradwyo uno a chau ysgolion;
- Gorolwg o awdurdodau addysg lleol yng Nghymru;
- Y Cwricwlwm Cenedlaethol yng Nghymru;
- Unrhyw faterion yn ymwneud â disgyblion ag anghenion addysg arbennig;
- Holl weithgareddau Awdurdod Cymwysterau, Cwricwlwm ac Asesu Cymru a materion yn ymwneud â chymwysterau academaidd yn gyffredinol;
- Ariannu ysgolion sefydledig (ysgolion a gynhelir â grant gynt) yng Nghymru;
- Safonau addysgu yng Nghymru, gan gynnwys Cyngor Addysgu Cyffredinol Cymru;
- Arfarnu athrawon yng Nghymru, ond **nid** tâl ac amodau (nid yw tâl Athrawon ac ati wedi ei ddatganoli);
- Polisi ar addysg bellach ac uwch yng Nghymru;
- Holl weithgareddau Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru a Chyngor Cenedlaethol Cymru dros Addysg a Hyfforddiant;
- Rheoli'r ffioedd a godir ar fyfyrwyr gan sefydliadau addysg uwch yng Nghymru (DS mae hyn yn bennaf yn fater o ddeddfwriaeth sylfaenol - gweler Deddf Addysgu ac Addysg Uwch 1998. Ond mae'r pwer gan y Cynulliad i reoli ffioedd 'ychwanegol' e.e. mewn perthynas â defnyddio offer labordy neu deithiau maes);
- Polisi gyrfaoedd, gan gynnwys holl weithgareddau cwmnïau'r Gwasanaeth Gyrfaoedd;
- Gwasanaethau ieuenctid a materion ieuenctid yn gyffredinol;
- Darparu a chefnogi hyfforddiant yn y gwaith a hyfforddiant galwedigaethol arall yng Nghymru;
- Arolygu darparwyr hyfforddiant a chwmnïau'r gwasanaeth gyrfaoedd; a
- Darparu rhaglenni cyflogaeth o ochr y cyflenwyr, gan gynnwys y Fargen Newydd, ond **heb gynnwys** rhaglenni eraill a ddarperir gan y Gwasanaeth Cyflogaeth (nad yw wedi ei ddatganoli).

**Atodiad 2**

**Dyletswyddau'r Pwyllgor**

Mae'r Pwyllgor Addysg a Dysgu Gydol Oes yn un o saith pwyllgor pwnc. Mae cyfrifoldebau'r pwyllgorau pwnc wedi eu nodi yn Rheolau Sefydlog y Cynulliad Cenedlaethol:

“9.7. Bydd pob Pwyllgor Pwnc

i. yn cyfrannu at ddatblygu polisïau’r Cynulliad o fewn y meysydd y mae’r Ysgrifennydd Cynulliad perthnasol yn atebol i’r Cynulliad amdanynt;
ii. yn cadw llygad ar y gwariant a'r weinyddiaeth sy'n gysylltiedig â'u gweithredu; a
iii. yn cadw llygad ar waith cyflawni'r swyddogaethau cyhoeddus yn y meysydd hynny gan gyrff cyhoeddus, gwirfoddol a phreifat.

O fewn y meysydd perthnasol, bydd pob Pwyllgor Pwnc hefyd,

i. cynghori ar ddeddfwriaeth arfaethedig a fydd yn effeithio ar Gymru, gan gynnwys cyflawni ei swyddogaethau o dan Reol Sefydlog 22 (sef Rheol Sefydlog 24 erbyn hyn);
ii. rhoi cyngor i Gabinet y Cynulliad ar faterion sy'n ymwneud â dyrannu cyllideb y Cynulliad yn unol â Rheol Sefydlog 19 (sef Rheol Sefydlog 21 erbyn hyn);
iii. cyflawni ei swyddogaethau o dan Reol Sefydlog 21 (cwynion) (sef Rheol Sefydlog 23 erbyn hyn);
iv. cyflawni unrhyw swyddogaethau a neilltuir iddo o dan y Cod Ymarfer ar Weithdrefn Penodiadau Cyhoeddus a wneir gan y Cynulliad o dan Reol Sefydlog 20 (sef Rheol Sefydlog 22 erbyn hyn); a
v. yn ystyried materion y bydd y Cynulliad yn eu cyfeirio ato o fewn ei feysydd."

O dan Reol Sefydlog 9.9, rhaid bod gan bwyllgorau pwnc raglen waith dreigl a fydd yn cwmpasu cyfnodau o 12 mis o leiaf.

**Atodiad 3**

**Y PWYLLGOR ADDYSG A DYSGU GYDOL OES**

**EDUCATION AND LIFELONG LEARNING COMMITTEE**

Jane Davidson AC
Y Gweinidog dros Addysg a Dysgu Gydol Oes
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd
CF99 1NA

Bae Caerdydd / Cardiff Bay
Caerdydd / Cardiff CF99 1NQ99 1

Eich cyf / Your ref:
Ein cyf / Our ref:

23 Hydref 2003

Annwyl Weinidog

**CYLCH CYNLLUNIO'R GYLLIDEB 2003**

Diolch am eich cyflwyniad i'r Pwyllgor ddoe ar gyllideb ddrafft 2004-05. Roedd y pwyllgor yn falch o nodi eich bod wedi rhoi ystyriaeth i'w brif flaenoriaethau, fel y nodwyd yn fy llythyr dyddiedig 16 Gorffennaf.

Byddwn yn ddiolchgar pe bai modd i chi drafod â'ch cyd-Weinidogion, ar ran y pwyllgor, ffyrdd o glustnodi arian ar gyfer addysg sy'n ymwneud â chyfrifoldebau

statudol awdurdodau lleol yn y gyllideb yn gyffredinol. Byddai hyn yn galluogi aelodau'r pwyllgor i ddeall yn well yr hyn y bwriedir ei wario ar bolisïau, mentrau a gofynion statudol mewn perthynas ag addysg a dysgu gydol oes yn y cylch.

Mae'r pwyllgor yn edrych ymlaen at ganlyniad yr adolygiad o'r polisi ar gymorth i fyfyrwyr a gynhelir gan y grwp astudiaeth o dan arweiniad yr Athro Rees.

Yn gywir



**Peter Black AC**
**Cadeirydd y Pwyllgor**

Copi at: Sue Essex AC, y Gweinidog dros Gyllid, Llywodraeth Leol a Gwasanaethau Cyhoeddus

**Atodiad 4**

**Blaenraglen Waith Strategol**
**Mehefin 2003 - Rhagfyr 2004**

**Rhagarweiniad**

1. Mae'r Pwyllgor Addysg a Dysgu Gydol Oes yn un o saith pwyllgor pwnc y Cynulliad. Rhestrir cyfrifoldebau'r pwyllgorau pwnc yn Rheolau Sefydlog 9.7 a 9.8.

2. O dan Reol Sefydlog 9.9, rhaid i bwyllgorau pwnc gynnal rhaglen waith dreigl a fydd yn cwmpasu cyfnodau o 12 mis o leiaf. Mae Panel y Cadeiryddion wedi cytuno y dylai rhaglenni gwaith y pwyllgorau fod yn strategol ac y dylent gynnwys cyfnod o rhwng 18 mis a 2 flynedd. Cefnogir y rhaglen strategol hon gan raglen fanylach sy'n cynnwys cyfnod o dri mis. Mae'r rhaglen waith hon yn nodi blaenoriaethau strategol y Pwyllgor ar ôl etholiadau'r Cynulliad Cenedlaethol a gynhaliwyd ym Mai 2003 ac mae'n ymdrin â'r cyfnod hyd at fis Rhagfyr 2004.

**Cylch Gwaith**

3. Mae cylch gwaith y Pwyllgor wedi'i seilio ar bortffolio Jane Davidson AC, y Gweinidog dros Addysg a Dysgu Gydol Oes. Ymhlith materion eraill, y gweinidog sy'n gyfrifol am ysgolion, addysg bellach a datblygu sgiliau, addysg uwch, y gwasanaeth ieuenctid a'r gwasanaeth gyrfaoedd.

**Nodau**

4. Nod y pwyllgor yw hyrwyddo a hybu'r gwaith o wella ansawdd addysg yng Nghymru yn y tymor hir ac yn barhaus, gan ddarparu mwy o gyfleoedd i bawb yng Nghymru gael addysg o ansawdd uchel ac addysg gydol oes.

**Blaenoriaethau**

5. Gan fod cylch gwaith mor eang gan y pwyllgor, mae wedi datblygu dull strategol o fynd ati i gyflawni'i waith. Dyma'r blaenoriaethau ar gyfer y flwyddyn nesaf:

- *Datblygu polisïau Rheol Sefydlog 9.7(i)* - bydd y pwyllgor yn canolbwyntio ar y meysydd hynny sy'n ymwneud â datblygu polisi y gall effeithio fwyaf arnynt, a bydd yn ategu'r polisïau y mae'r Gweinidog wrthi'n eu datblygu yn hytrach na'u dyblygu. Rhagwelir y bydd y Pwyllgor yn cynnal adolygiad polisi ar rai agweddau penodol ar anghenion addysg arbennig. Rhagwelir y bydd yr adolygiad hwn yn dechrau fis Medi 2003 ac yn cael ei gwblhau cyn toriad yr haf yn 2004. Bydd y Pwyllgor hefyd yn ystyried opsiynau eraill ar gyfer adolygiadau polisi.
- *Craffu ar waith y Gweinidog Rheol Sefydlog 9.7(ii)* - bydd y Gweinidog yn adrodd ynghylch y datblygiadau o fewn y portffolio ym mhob cyfarfod o'r Pwyllgor. Unwaith y flwyddyn, bydd y pwyllgor yn craffu ar y gweinidog ac yn cymharu ei pherfformiad â'r targedau. Efallai hefyd y bydd y pwyllgor yn cynnal sesiynau craffu thematig o bryd i'w gilydd, yn benodol mewn perthynas â darparu rhaglen *Y Wlad Sy'n Dysgu.*

- *Craffu ar y cyrff cyhoeddus, gwirfoddol a phreifat perthnasol Rheol Sefydlog 9.7 (iii)* - bydd y pwyllgor yn cadw llygad ar y ffordd y mae'r cyrff canlynol yn cyflawni'u swyddogaethau cyhoeddus: Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru (CCAUC), y Cyngor Cenedlaethol - ELWa (corff cyllido sy'n ariannu addysg a hyfforddiant ôl 16 yng Nghymru), Cyngor Addysgu Cyffredinol Cymru, ACCAC (Awdurdod Cymwysterau Cwricwlwm ac Asesu Cymru) ac Estyn (Arolygiaeth ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru):
  - CCAUC - tymor yr hydref 2003 a 2004
  - Cyngor Addysgu Cyffredinol Cymru - tymor yr haf 2003 a 2004
  - ACCAC – tymor yr hydref 2003 a 2004
  - Y Cyngor Cenedlaethol - ELWa - tymor yr hydref 2003 a 2004
  - Estyn - tymor y gwanwyn 2004

Eitemau eraill Rheol Sefydlog 9.8 - bydd y Pwyllgor hefyd yn ystyried yr eitemau canlynol wrth iddynt godi:

- *deddfwriaeth arfaethedig sy'n effeithio ar Gymru* Rheol Sefydlog 9.8(i) a Rheol Sefydlog 22 – bob tymor, bydd y gweinidog yn rhoi braslun o'r is-ddeddfwriaeth sydd ar y gweill er mwyn i'r pwyllgor allu nodi'r meysydd lle'r hoffai roi cyngor yn eu cylch. Ar ôl i'r Cynulliad Cenedlaethol drafod araith y Frenhines, bydd y Pwyllgor yn ystyried unrhyw ddeddfwriaeth sylfaenol ddrafft y bydd y Cyfarfod Llawn yn ei chyfeirio ato. Bydd y pwyllgor hefyd yn ystyried yr is-ddeddfwriaeth y bydd y Pwyllgor Busnes yn ei chyfeirio ato.

- *cynigion ar gyfer cyllideb y Cynulliad* Rheol Sefydlog 9.8(ii) – bydd y pwyllgor yn nodi'i flaenoriaethau o ran dyrannu'r gyllideb yn nhymor yr haf bob blwyddyn ac yn rhoi ei farn am y gyllideb ddrafft yn nhymor yr hydref;

- *cwynion* Rheolau Sefydlog 9.8(iii) ac 21 – bydd y pwyllgor yn ystyried unrhyw gwynion sy'n cael eu cyfeirio ato;

- *penodiadau cyhoeddus* Rheolau Sefydlog 9.8(iv) a 20 – bydd y bobl y mae'r pwyllgor wedi'u henwebu i swyddi cyhoeddus yn cymryd rhan yn y broses o benodi pobl i swyddi gyda chyrff cyhoeddus pan ddaw'r swyddi'n wag; a

- *materion eraill sy'n cael eu cyfeirio gan y Cynulliad* Rheol Sefydlog 9.8 (v) – bydd y pwyllgor yn ystyried materion eraill sy'n cael eu cyfeirio ato gan y Cynulliad Cenedlaethol, gan gynnwys pwyllgorau eraill.